ATODLEN 5 Rheoliad 2(5)

Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

# RHAN 1

## SAFONAU

| | |
|---|---|
| **1** | **Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau** |
| **Safon 118:** | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. |
| **2** | **Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno** |
| **Safon 119:** | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan. |
| **3** | **Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau** |
| **Safon 120:** | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—<br>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);<br>(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);<br>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. |

| | |
|---|---|
| **4** | **Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg** |
| **Safon 121:** | Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. |

# RHAN 2

## DEHONGLI'R SAFONAU

| | |
|---|---|
| **5** | Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 fel a ganlyn. |
| **6** | At ddiben safon 120, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun. |
| **7** | At ddiben y safonau, nid yw gofyniad i lunio neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid llunio neu gyhoeddi'r deunydd hwnnw yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon). |